# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 1 Ebrill 2014** | |
| Amser: | **08.30 - 08.45** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

Aelodau'r Pwyllgor:

**Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**
**Paul Davies**
**Lesley Griffiths**
**Elin Jones**
**Aled Roberts**

Staff y Pwyllgor:

**Aled Elwyn Jones (Clerc)**

Eraill yn bresennol:

**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**
**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**
**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**
**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Anfonodd y Dirprwy Lywydd ei ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Pwyllgor Busnes ei bod hi wedi cytuno i gynnig i newid aelodaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (William Graham i gymryd lle Mohammad Asghar) gael ei gymryd yn union ar ôl y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes ddydd Mawrth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 7 Mai 2014 yn cael eu symud i ddydd Mercher 30 Ebrill, a chytunwyd nad oedd angen atal y Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn i hynny ddigwydd.

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 14 Mai 2014**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil Cymru - Gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a datganiad ysgrifenedig

Nododd y Pwyllgor Busnes gynnig y Llywodraeth i ohirio gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a datganiad ysgrifenedig tan fod Llywodraeth y DU wedi gosod ei gwelliannau i'w hystyried yn y cyfnod Pwyllgor.

Cytunodd Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y dylid cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddynt graffu arno a byddant yn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw ac yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer cyhoeddi adroddiad yn ddiweddarach, unwaith y bydd y Llywodraeth wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 5 Pwyllgorau

5.1 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cais i ymweld â Dulyn a Glasgow

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ymweld â Dulyn a Glasgow ddydd Mercher 30 Ebrill - dydd Gwener 2 Mai 2014.

## 6 Amserlen y Cynulliad

6.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad 2014 - 2015

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiadau toriadau'r hydref a'r Nadolig ar gyfer 2014 a dyddiadau dros dro ar gyfer toriadau hyd at doriad y Pasg 2015 (gweler isod).

Trafododd y Rheolwyr Busnes ddyddiadau amgen ar gyfer toriadau ond barn y mwyafrif oedd y dylid cadarnhau'r dyddiadau a gynigiwyd ac ail-edrych ar y mater wrth ystyried Amserlen y Cynulliad ar gyfer 2015.

| | **Dyddiadau** |
|---|---|
| **Hanner Tymor yr Hydref**<br><br>(1 wythnos) | *Dydd Llun 27 Hydref 2014 - Dydd Sul 2 Tachwedd 2014* |
| **Toriad y Nadolig**<br><br>(4 wythnos) | *Dydd Llun 15 Rhagfyr 2014 - Dydd Sul 11 Ionawr 2015* |
| ***Hanner Tymor y Gwanwyn**<br><br>**(1 wythnos)** | *Dydd Llun 16 Chwefror 2015 - Dydd Sul 22 Chwefror 2015* |
| ***Toriad y Pasg**<br><br>**(3 wythnos)** | *Dydd Llun 30 Mawrth 2015 - Dydd Sul 19 Ebrill 2015* |

***Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.**

Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y trefniadau cyflwyno arfaethedig ar gyfer toriad y Pasg a chyfnodau gwyliau banc.

6.2 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg 2014

**Aelodau yn gadael y Siambr**

Yn sgîl Aelodau'n gadael y Siambr yr wythnos ddiwethaf ar ôl cymryd rhan mewn dadl / gofyn cwestiwn, nododd y Dirprwy Lywydd ar y pryd y byddai canlyniadau i bobl o ran peidio â chael eu galw yn y dyfodol. Cafodd y neges hon ei hail-adrodd gan y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes.

### Cwestiynau a dynnwyd yn ôl

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes mai dim ond o dan amgylchiadau annisgwyl ac anochel y dylid tynnu cwestiynau llafar y Cynulliad yn ôl, a gallai tynnu cwestiynau yn ôl o dan amgylchiadau eraill olygu canlyniadau i Aelodau o ran cael eu galw i siarad yn y dyfodol.

### Cyflwyno Cwestiynau

Nododd y Pwyllgor Busnes mai dim ond 14 cwestiwn a gyflwynwyd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yr wythnos hon, oedd yn golygu bod chwe Aelod yr oedd eu henwau wedi eu dewis o'r balot heb gyflwyno cwestiynau.

### Y Bil Dadreoleiddio

Rhoddodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wybod i'r Pwyllgor Busnes y dylai ddisgwyl Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i'r Bil Dadreoleiddio ond bod yr amseru'n ansicr ar hyn o bryd.